Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DLl 274

**Amseru: Brys**

**Teitl: Gwobrwyo Cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Ar gyfer 2022/23, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder broses ar gyfer cynnig am gyllid ychwanegol yn ôl angen a nodwyd ac sydd â thystiolaeth ar ei gyfer i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn dilyn proses gyhoeddus ar gyfer ceisio cynigion gan ddarparwyr sy'n cyflenwi o fewn ardal Dyfed-Powys, cyflwynodd CHTh gynnig ym mis Mehefin 2022 ar ran darparwyr sydd angen cyllid ychwanegol. Y cyfanswm oedd tua £1 miliwn.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi pennu cyfanswm o £271,041 y flwyddyn ar gyfer Dyfed-Powys am gyfnod o 3 blynedd. Roedd hyn yn llai o lawer na'r swm y gofynnwyd amdano, a chynhaliwyd ymarfer er mwyn ail-flaenoriaethu ac ail-gyfrifo'r ffordd orau o uchafu'r arian. Roedd hyn yn cynnwys y rhesymeg ganlynol:

- Bydd cynigion sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifainc yn ffurfio rhan o gynnig CHTh ar gyfer cronfa Trais yn Erbyn Menywod a Merched y Swyddfa Gartref, sy'n cael ei ddatblygu gan y Rheolwr Ariannu Allanol ar hyn o bryd. Mae'r dyddiad cau ar gyfer cynigion yn gynnar fis Awst 2022.
- Ni chefnogwyd cynigion a oedd yn canolbwyntio ar safleoedd tystiolaeth pell gan fod y safleoedd o dan gynllun datblygu Llywodraeth Cymru ar wahân â chyllid yn gysylltiedig. Rheolir hyn drwy ymgynghorwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn cysylltiad â darparwyr.
- Ni chefnogir cynigion sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth gan nad hyn yw'r defnydd pwysicaf ar gyfer y gronfa hon.
- Mae cynigion sy'n dangos angen o safbwynt oedolion wedi'u hariannu ar 50% o bob cais gwreiddiol – ynghyd â chais bod yr arian hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaeth rheng flaen â chyfanswm rheolaeth a gorbenion wedi'u cyfuno i ddod i ddim mwy na 10% o'r swm a wobrwyir.
- Bydd angen i bob asiantaeth sy'n derbyn arian ddarparu gwybodaeth am berfformiad a demograffeg ganol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn, yn unol â gofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Bydd cytundeb grant yn cael ei lunio gyda phob darparwr er mwyn cyflwyno telerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r CHTh.

Er gwybodaeth, ymgymerwyd â phroses ar wahân i ddarparu cyllid ar gyfer Ymgynghorwyr Annibynnol Trais Domestig a Thrais Rhywiol. Cyflwynwyd cynigion i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd yn awr wedi cyhoeddi y bydd Dyfed-Powys yn derbyn 1 Ymgynghorydd Annibynnol Trais Rhywiol Plant cyfwerth â llawn amser. Doedd dim penderfyniad i'r CHTh ei wneud o fewn y gronfa hon.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo cyllid Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar lefel o 50% ar gyfer pob gwasanaeth sy’n canolbwyntio ar oedolion ac yn cefnogi datblygu cynnig amgen ar gyfer plant a phobl ifainc.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 08.07.2022**